Iechyd a Diogelwch

Adroddiad Blynyddol

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

2016/2017

Hysbysiad: Mae data 'Damweiniau Anafiad' y Sector Addysg Uwch wedi'i ddiweddaru ar 17 Ebrill 2023 i gywiro anghysondeb.

Mynegai		Tudalen
1.	Polisïau a Dogfennau Allweddol	2
2.	Archwiliadau, Adolygiadau ac Arolygiadau	3
3.	Camau Gorfodi ac Ymweliadau Arolygu Statudol	5
4.	Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch	5
5.	Damweiniau a Digwyddiadau	7
6.	Absenoldeb Salwch Ymysg Staff	11
7.	Iechyd Galwedigaethol	14
8.	Larymau tân yn Canu	14
9.	Achosion Sifil i Hawlio Iawndal (cysylltiedig ag iechyd a diogelwch)	15
10.	Ystadegau’r Wefan	15
11.	Hybu Iechyd	15
12.	Cefnogi'r Gymuned Ehangach	16

Mae Adroddiad 2016/17 yn darparu adroddiad cyfunol ar gyfer sawl agwedd ar iechyd a diogelwch. Darperir crynodeb o'r adroddiad hefyd i'r Cyngor ac agweddau a gynhwysir yn adroddiadau dangosyddion perfformiad allweddol y brifysgol.

Ar hyn o bryd, mae'r dangosyddion perfformiad allweddol iechyd a diogelwch yn gyfyngedig i ddau fesur, sef cynefino ar lefel y brifysgol a defnyddio cyfrifiaduron yn ddiogel (sgriniau arddangos). Y bwriad yw cynyddu'r dangosyddion perfformiad allweddol wrth i'r systemau adrodd a chofnodi gael eu gwella. Mae'r ddau ddangosydd perfformiad allweddol hyfforddiant i'w gweld yn yr Adran Hyfforddi (4). Caiff dangosyddion perfformiad allweddol hunanasesu ychwanegol eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol, ar ôl yr ad-drefnu.

1. POLISÏAU A DOGFENNAU ALLWEDDOL

Nid oedd unrhyw bolisïau ychwanegol (newydd) yn 2016/17. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch y brifysgol i'w adnewyddu yn 2018.

• POLISÏAU DIWYGIEDIG

Adolygwyd a diweddarwyd y polisïau canlynol yn 2016/17.

PROJECTAU DEIFIO'R BRIFYSGOL (diweddariad): Mae'r polisi presennol (a gymeradwywyd 21 Mai 2014), yn disodli'r Nodyn Polisi gwreiddiol: OHSU P11 Deifio yn y gwaith. Dyma'r prif newidiadau:

i. *Enw / Defnydd:* Newidiwyd i *'Projectau Deifio'* i ymgorffori '*gweithgareddau deifio sy'n cyfrif tuag at unrhyw gwrs a achredir gan Brifysgol Bangor'.*

ii. *Swyddogaethau a chyfrifoldebau:* Newidiwyd 'Swyddog Diogelwch Deifio' i swyddogaethau deifio safonol: Swyddog Deifio a Goruchwyliwr Deifio, gan egluro mai'r brifysgol (Deiliad Dyletswydd) yw'r Contractwr Deifio ac nid unigolyn.

iii. Mae'n egluro bod rhaid i ddeifwyr gael Archwiliad Meddygol cyfredol a wnaed gan Archwiliwr Meddygol Deifwyr wedi ei gymeradwyo.

RHEOLI SYLWEDDAU SY'N BERYGLUS I IECHYD (diweddariad): Mae'n disodli'r Nodyn Polisi OHSU P5 Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd. Mae'r newidiadau'n ymwneud yn bennaf ag adnewyddu gosodiad y polisi, diweddaru cyfeiriadau a chynnwys cyfeiriadau at wastraff peryglus a chlinigol; galluogi cael gwared a'r Polisi Gwastraff Clinigol OHSU P12 oedd ar wahân.

CODI A CHARIO (diweddariad): Mae'n disodli Nodyn Polisi OHSU P2 Gweithrediadau Trin â Llaw. Mae'r newidiadau'n ymwneud yn bennaf ag adfywio gosodiad y polisi, diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ac yn awr yn cyfeirio darllenwyr at offer MAC y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, a ddatblygwyd i helpu i nodi gweithgareddau codi a chario risg uchel yn y gweithle i sicrhau bod rheoliadau priodol yn eu lle i reoli risg.

• POLISÏAU A DYNNWYD YN ÔL

Tynnwyd y polisïau canlynol yn ôl yn 2016/17.

OHSU P13: Nodyn Polisi Trais yn y Gwaith: Rhoddir sylw addas i'r wybodaeth ynddo mewn polisïau, trefniadau a gwybodaeth arall gan y brifysgol.

OHSU P12: Trin, Storio, Cludo a Gwaredu Gwastraff Clinigol yn Ddiogel: Ar ôl diweddaru'r Safon Polisi Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd nid oedd bellach unrhyw angen am bolisi penodol ar gyfer gwastraff clinigol. Mae gwybodaeth berthnasol ar gael ar-lein, gyda'r Polisi Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd diwygiedig yn cynnwys dyletswyddau cynhyrchwyr gwastraff.

• PROJECT O BWYS: GWIRFODDOLI MYFYRWYR

Gan gydweithio ag Undeb y Myfyrwyr, cynhaliwyd adolygiad o'r holl waith papur iechyd a diogelwch perthnasol ar gyfer gweithgareddau "Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor". Roedd hyn yn cynnwys asesu ac ailysgrifennu'r 38 asesiad risg oedd yn bodoli eisoes a'r Polisi Iechyd a Diogelwch Cyfleoedd Myfyrwyr cysylltiedig. Y nod oedd datblygu dogfennau cynhwysfawr, hawdd eu defnyddio, gan leihau nifer y tudalennau yn llawer ohonynt o dros 25 o dudalennau i 4 tudalen.

Bydd y dogfennau diwygiedig yn gymorth i arweinwyr projectau i nodi cyfrifoldebau'r partner

project ac i'w cynorthwyo i hyfforddi/briffio eu gwirfoddolwyr wrth baratoi at weithgareddau'r project.

2. ARCHWILIADAU, ADOLYGIADAU AC AROLYGIADAU

- **TREFNIADAU IECHYD A DIOGELWCH COLEGAU/ADRANNAU**

Yn 2016/17, dechreuodd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch ei rhaglen o archwiliadau rheoli iechyd a diogelwch gan ddefnyddio'r pecyn archwilio newydd i reoli iechyd a diogelwch.

Mae'r pecyn archwilio yn cyfeirio at safonau cenedlaethol *(Arwain a Rheoli Iechyd a Diogelwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch USHA/UCEA)* ac mae'n darparu Meincnodau a oedd yn galluogi'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch i asesu trefniadau rheoli iechyd a diogelwch cyffredinol yr adran/coleg.

Mae'r meincnodau perfformio ar gyfer elfennau thematig yr archwiliadau, sy'n profi effeithiolrwydd system rheoli meysydd pwnc penodol, wedi eu datblygu gan y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn unol â pholisïau a chanllawiau mewnol.

Mae tri archwiliad mawr bellach wedi eu cwblhau gan ddefnyddio'r system newydd:

- **ADRAN: Chwaraeon**

DANGOSIAD PERFFORMIAD	ARFER GORAU

Gwelwyd bod trefniadau'r adran ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch o safon ragorol, gan ennill 'Arfer Gorau' a bron i 100% am eu perfformiad iechyd a diogelwch cyffredinol.

Rheoli Perfformiad Iechyd a Diogelwch

	Sylfaenol	Arfer Da	Arfer Gorau
CYNLLUNIO	100%	100%	66%
GWNEUD	100%	100%	100%
GWIRIO	100%	100%	100%
GWEITHREDU	100%	100%	N/A

Nodwyd bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yr adran wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diweddar, gyda'r adran yn ymdrechu'n barhaus i nodi problemau posib a gwneud gwelliannau lle bo'n bosib. Mae'r cyfarwyddwr a'r uwch reolwr yn ymdrin yn weithredol ag iechyd a diogelwch a'i hyrwyddo i'w staff a defnyddwyr y cyfleusterau.

Roedd yr ychydig fân gamau gweithredu a nodwyd yn ystod yr archwiliad wedi cael sylw gan fwyaf erbyn cwblhau'r archwiliad.

Risgiau Thematig:
Yn ogystal â threfniadau rheoli cyffredinol, edrychodd yr archwiliad ar ddetholiad o risgiau thematig. Dyma'r risgiau thematig yn achos Chwaraeon:

Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau

Sylfaenol	Arfer Da	Arfer Gorau
100%	100%	N/A

Diogelwch Personol

Sylfaenol	Arfer Da	Arfer Gorau
100%	100%	N/A

Diogelwch Plant

Sylfaenol	Arfer Da	Arfer Gorau
100%	100%	100%

- **ADRAN: Canolfan Addysg Ryngwladol**

DANGOSIAD PERFFORMIAD	ARFER DA

Darganfu'r archwiliad bod trefniadau'r adran i reoli iechyd a diogelwch o safon dda.

Rheoli Perfformiad Iechyd a Diogelwch

	Sylfaenol	Arfer Da	Arfer Gorau
PLAN	100%	87%	67%
DO	100%	82%	50%
CHECK	N/A	80%	50%
ACT	N/A	100%	N/A

Mae'r adran wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu ei system reoli iechyd a diogelwch. Mae'r cyfarwyddwr a'r uwch reolwr yn ymdrin yn weithredol ag iechyd a diogelwch a chaiff yr ethos hwn ei adlewyrchu yn yr adran gyfan trwy'r gefnogaeth gyffredinol i'r agenda iechyd a diogelwch.

Roedd yn amlwg bod cefnogaeth ardderchog yn cael ei gynnig i'w fyfyrwyr rhyngwladol. O'r cyfnod recriwtio nes iddynt gyrraedd a'r cyfnod wedi hynny, roedd gofal ac ymroddiad y tîm i sicrhau bod myfyrwyr tramor yn cael profiad cadarnhaol yn ystod eu cyfnod ym Mangor yn amlwg.

Nodwyd nifer fechan o gamau gweithredu, gyda'r pwysicaf yn ymwneud â sicrhau bod rheolwyr yn goruchwylio'r broses o ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau.

Er nad oes llawer iawn ohonynt.

Risgiau Thematig:
Yn ogystal â threfniadau rheoli cyffredinol, edrychodd yr archwiliad ar ddetholiad o risgiau thematig. Dyma'r risgiau thematig yn achos y Ganolfan Addysg Ryngwladol:

Defnyddio Cyfrifiaduron Yn Ddiogel (offer sgriniau arddangos/cyhyrysgerbydol)

Sylfaenol	Arfer Da	Arfer Gorau
100%	100%	67%

Teithio Dramor

Sylfaenol	Arfer Da	Arfer Gorau
100%	100%	100%

Digwyddiadau Cymdeithasol (teithiau undydd a digwyddiadau)

Sylfaenol	Arfer Da	Arfer Gorau
100%	100%	100%

- **ADRAN: Llyfrgelloedd ac Archifau**

DANGOSIAD PERFFORMIAD	ARFER DA / GORAU

Sylwer:: *Defnyddiwyd y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau i dreialu'r archwiliad cyntaf. Yn dilyn yr archwiliad hwn, gwnaed rhai newidiadau i'r meini prawf mesur a sgorio, ac oherwydd hynny ni chaiff y siartiau sgorio eu dangos yma.*

Gwelwyd bod trefniadau'r adran i reoli iechyd a diogelwch o safon uchel. Yn gyffredinol, cafodd yr Adran 'Arfer Gorau' am eu perfformiad diogelwch, sy'n cyfrifo'r holl sgoriau o adran gyffredinol Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch a phob adran thematig yn yr archwiliad.

Nodwyd nifer fechan o gamau gweithredu, gyda'r pwysicaf yn ymwneud â gwella cadw cofnodion a monitro gweithredoedd hyd at eu cwblhau.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch wedi gweithio gyda'r tîm rheoli yn y Llyfrgell ac Archifau a rhoddwyd trefniadau ychwanegol ar waith, yn ôl yr angen.

- **Archwiliadau Colegau ac Adrannau yn y Dyfodol**

Bwriedir cynnal nifer fechan o archwiliadau llawn yn 2017/18; oherwydd y newidiadau sefydliadol sy'n mynd rhagddynt.

Caiff y canlynol eu harchwilio yn 2017/18:

- Neuaddau preswyl.
- Undeb y Myfyrwyr.
- Y Ganolfan Rheolaeth (is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r brifysgol)

Caiff archwiliadau adrannau a cholegau eraill eu gohirio, a bydd y pwyslais ar gefnogi cyfarwyddiaethau a cholegau newydd i ddarparu system rheoli iechyd a diogelwch effeithiol a phriodol.

- **ADOLYGIAD O BERYGLON BIOLEGOL**

DANGOSIAD PERFFORMIAD	

Cynhaliwyd arolygiad blynyddol o'r cyfleusterau HG2 yn Ionawr 2017. Roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol ac roedd yn amlwg fod gan yr holl staff a myfyrwyr sy'n gweithio yn y meysydd dan sylw ddealltwriaeth dda o'r risgiau a'r gofynion rheoli cysylltiedig.

- **ADOLYGIAD RADON**

DANGOSIAD PERFFORMIAD	

Cynhaliwyd yr adolygiad radon i gadarnhau bod trefniadau lliniaru a roddwyd yn eu lle yn flaenorol i reoli radon yn parhau'n effeithiol ac i asesu goblygiadau'r gostyngiadau sydd i ddod i'r lefel gweithredu radon, fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2018. Bydd hyn yn golygu bod y lefel weithredu yn gostwng o 400 Bq m-3 i 300 Bq m–3.

Argymhellwyd y camau gweithredu allweddol canlynol:

i. Mesur radon ym mhob adeilad, a oedd yn flaenorol yn dangos lefelau radon yn agos i'r lefel gweithredu newydd.

ii. PACS i sicrhau y cedwir cofnodion am gynnal a chadw ac archwilio rheoliadau peirianneg radon.

i. Yn un adeilad, nodwyd problemau'n ymwneud ag ansawdd y gwaith o osod mesurau lliniaru radon a gofynnwyd i'r contractwr sy'n gyfrifol am gynllunio a gosod y systemau i ddychwelyd i'r safle i fynd i'r afael â phryderon.

- **DIOGELWCH RHAG TÂN (systemau cladin)**

Yn syth ar ôl y tân trychinebus yn Grenfell Tower yn Llundain, cynhaliwyd adolygiad i asesu pa mor agored i niwed y mae adeiladau'r brifysgol ac i nodi risgiau tân posib.

Asesodd yr adolygiad dros 100 o adeiladau a chadarnhaodd nad oes gan y brifysgol system gladin gyda deunydd hylosg tebyg i'r un a ddefnyddiwyd yn Grenfell, ar unrhyw un o'i hadeiladau preswyl. Cadarnhaodd hefyd fod system debyg wedi ei gosod ar un adeilad academaidd (ar un ochr), er bod y trefniadau diogelwch tân mewnol yn cael eu hystyried o safon uchel iawn.

Mae'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch wedi ystyried adroddiad cychwynnol, gan dynnu sylw at y ffaith nad oes unrhyw bryderon brys nac arwyddocaol.

Trefnir i bob adeilad gael ei ailasesu a chaiff adroddiad pellach ei ystyried maes o law.

- **HAINT CHWYDU'R GAEAF**

Mewn ymateb i nifer o achosion o haint chwydu'r gaeaf (norofirws) yn yr ardal, cynhaliwyd adolygiad o feysydd risg uchel a deunyddiau glanhau/golchi ar draws y brifysgol. Yn gyffredinol gwelwyd bod y safonau a ddefnyddir ym mwyafrif y meysydd yn rhagorol.

Mae 'canllaw' clir ar gyfer prynu a defnyddio deunyddiau glanhau bellach wedi ei gynhyrchu, gan gyfeirio at y safonau biolegol a firywaidd priodol (BSEN).

3. CAMAU GORFODI AC YMWELIADAU AROLYGU STATUDOL

Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y brifysgol yn 2016/17.

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
Ni wnaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch unrhyw ymchwiliadau yn y brifysgol ac nid oedd unrhyw ymweliadau ffurfiol.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Ymwelodd arolygwr Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Rhagfyr 2016 i gadarnhau bod y brifysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â defnyddio, storio, diogelwch a gwaredu â deunyddiau ymbelydrol. Cadarnhaodd yr arolygiad blynyddol bod trefniadau da ar waith. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cynnal arolygiad llawn, ychwanegol yn 2017.

4. HYFFORDDIANT YM MAES IECHYD A DIOGELWCH

Mae'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn darparu, yn cydlynu neu'r cefnogi nifer o gyrsiau hyfforddi trwy gydol y flwyddyn. Mae'r canlynol yn dangos nifer y cyrsiau a'r cyfranogwyr; ond nodir y caiff llawer o gyrsiau ychwanegol eu darparu'n lleol ac **ni chofnodir** y rhain yn y gronfa ddata hyfforddiant canolog.

- **CYRSIAU HYFFORDDI IECHYD A DIOGELWCH CYFFREDINOL**

Yn ystod y flwyddyn cafodd 67 o gyrsiau "wyneb yn wyneb" eu darparu neu eu hwyluso gan y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch.

Blwyddyn	Nifer y Cyrsiau/ Sesiynau	Staff/Myfyrwyr a Gymerodd Ran
2016/17	67	299
2015/16[1]	56	309
2014	100	579
2013	85	583
2012	106	719

Roedd yr hyfforddiant a roddwyd i staff yn cynnwys:

- Aseswr Codi a Chario a Hyfforddi'r Hyfforddwr.
- Cymorth Cyntaf a Hyfforddiant Diffibriliwr.
- Profi Offer Trydanol Symudol.
- Aseswyr Offer Sgrin Arddangos.
- Hyfforddiant Stiwardiaid Tân.
- Sesiynau cynefino cyffredinol ar Iechyd a Diogelwch.
- Asesiadau Risg Cyffredinol ac Arbenigol.

- **CYNEFINO CYFFREDINOL I AELODAU STAFF**

DANGOSIAD PERFFORMIAD	

Defnyddir cynefino cyffredinol staff fel dangosydd perfformiad allweddol o ran iechyd a diogelwch sefydliadol.

Targed: erbyn 2018/19, bydd o leiaf 90% o'r holl staff newydd, a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn academaidd honno wedi cael cynefino iechyd a diogelwch gan y brifysgol yn ganolog.

Ar hyn o bryd, gwahoddir mwyafrif yr aelodau staff newydd i ddod i'r diwrnod cynefino canolog i staff, a drefnir gan Adnoddau Dynol, lle cânt wybodaeth iechyd a diogelwch sefydliadol.

DANGOSYDD PERFFORMIAD	Statws/ gwerth	NODIADAU
Canran y staff newydd (gwahoddedig) a aeth i sesiwn gynefino iechyd a diogelwch ganolog y brifysgol.[2]	79% yn unol a'r targed	**16% yn uwch na 15/16.** 86% yw'r targed ar gyfer 2017-18

Sylwer: *Ni chaiff sesiynau cynefino iechyd a diogelwch mewnol (ar lefel ysgol/adran/grŵp ymchwil) eu cofnodi'n ganolog ac felly ni chânt eu defnyddio ar hyn o bryd fel dangosydd perfformiad allweddol sefydliadol.*

- **HYFFORDDIANT I DDEFNYDDWYR CYFRIFIADUR**

DANGOSIAD PERFFORMIAD	

Defnyddir hyfforddiant i ddefnyddwyr cyfrifiaduron fel perfformiad allweddol sefydliadol erbyn hyn. Mae'r Rheoliadau Offer Sgrin Arddangos yn gofyn am hyfforddiant penodol o'r fath.

Targed: Bod 80% o ddefnyddwyr cyfrifiadur wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein o fewn y 5 mlynedd diwethaf erbyn 2018/19.

DANGOSYDD PERFFORMIAD	Statws/ gwerth	NODIADAU
Canran y defnyddwyr cyfrifiadur (sgriniau arddangos) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein a'r hunan-asesiad.	51.8% ychydig o dan y targed	**10% yn uwch na 15/16** - 67% yw targed 2017/18

Yn ystod 2016/17 cwblhaodd cyfanswm o **423** aelod staff yr hyfforddiant ar-lein i ddefnyddwyr cyfrifiadur (gan ddod â'r cyfanswm i 51.8% o'r defnyddwyr cyfrifiadur a amcangyfrifir) Mae'r ffigwr hwn yn gynnydd o 25.4% ar y cyfanswm o 41.31% y llynedd.

[1] In 15/16 trosglwyddwyd hyfforddiant DSE/Defnyddwyr Cyfrifiaduron ar-lein ac ni chaiff ei gynnig mwy fel cwrs. E.e. Wnaeth hyfforddiant DSE Defnyddwyr yn gyfrifol am 137 o gyfranogwyr yn 2014.

Mae'r siart canlynol yn dangos % y defnyddwyr cyfrifiadur a gwblhaodd yr hyfforddiant ym mhob coleg, ysgol ac adran.

Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau	21%
Staff Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau	29%
Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau	19%
Llenyddiaeth Saesneg	19%
Hanes ac Archaeoleg	0%
Ieithyddiaeth	50%
Ieithoedd a Diwylliannau Modern	31%
Cerddoriaeth	8%
Athroniaeth a Chrefydd	25%
Cymraeg	43%
Coleg Busnes, y Gyfraith, Addysg a Gwyddorau Cymdeithas	20%
Staff Coleg Busnes, y Gyfraith, Addysg a Gwyddorau Cymdeithas	38%
Ysgol Busnes Bangor	23%
Y Gyfraith	5%
Addysg	17%
Gwyddorau Cymdeithas	24%
Coleg y Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad	36%
Staff Coleg y Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad	50%
Gwyddorau Gofal Iechyd	25%
Gwyddorau Meddygol	46%
Seicoleg	34%
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer	80%
Coleg y Gwyddorau Naturiol	65%
Staff Coleg y Gwyddorau Naturiol	85%
Gwyddorau Biolegol	52%
ADNODD	58%
Gwyddorau'r Eigion	74%
Biogyfansoddion	78%
Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol	47%
Staff Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol	50%
Cemeg	60%
Cyfrifiadureg	36%
Peirianneg Electronig	37%
Arloesi Pontio	25%
Adrannau Gwasanaeth	
Cofrestrfa Academaidd	93%
Tîm Derbyniadau	44%
Canolfan Bedwyr	23%
Canolfan Brailsford	95%
Gwasanaethau Masnachol	92%
Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata	61%
Datblygu a Chysylltiadau Alumni	80%
Swyddfa Gyllid	66%
Neuaddau	79%
Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch	100%
Adnoddau Dynol	94%
Canolfan Addysg Ryngwladol	71%
Gwasanaethau TG	91%
Llyfrgelloedd ac Archifau	91%
Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru	56%
Cynllunio a Llywodraethu	100%
Pontio	25%
Gwasanaethau Eiddo a Campws	43%
Dirprwy Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg	20%
Swyddfa Ymchwil a Menter	21%
Gwasanaethau Myfyrwyr	71%
Undeb y Myfyrwyr	74%
Y Lab Cynaliadwyedd	100%
Yr Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-gangellorion	78%

Bydd y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn gweithio gyda'r colegau a'r cyfarwyddiaethau newydd i wella'r cyfraddau cydymffurfio.

5. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

Y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yw'r storfa ganolog ar gyfer holl ffurflenni damweiniau a digwyddiadau'r brifysgol. Ar ôl ei derbyn, caiff pob ffurflen ei hasesu i benderfynu a oes angen ymchwilio a/neu weithredu pellach. Adolygir y data yn rheolaidd i nodi tueddiadau mewn perthynas ag achos damweiniau, lleoliadau damweiniau a gweithgareddau'n gysylltiedig â'r damweiniau.

- **DAMWEINIAU SY'N ACHOSI ANAF (CYFANSWM)**



08	09	10	11	12	13	14	15	15/16	16/17
27.5	32.2	30	27	27.4	16.4	15.2	21.3	22.4	16.5

Yn 2016/17, nifer y damweiniau i staff a myfyrwyr a achosodd anafiadau o ganlyniad i'w gwaith neu astudiaethau yn y brifysgol ac a adroddwyd amdanynt oedd 58 (78 yn 2015/16). O'r cyfanswm hwn, roedd 34 (52) o'r damweiniau yn ymwneud â staff a 24 (26) yn ymwneud â myfyrwyr.

Yn ogystal â'r adroddiadau ar anafiadau/damweiniau staff/myfyrwyr, derbyniwyd **28** *(18)* adroddiad am ddamweiniau yn achosi anaf i ymwelwyr a chontractwyr. Mân anafiadau oedd y rhain i gyd.

***Sylwer:**: Mae cyfraddau damweiniau yn achosi anaf i gontractwyr ac aelodau'r cyhoedd yn rhy isel i ddangos unrhyw dueddiadau.*

- **CYFRADD DAMWEINIAU SY'N ACHOSI ANAF (fesul 1000 mewn perygl)**

Y gymhareb damweiniau a achosodd anaf i staff yn 2016/17 oedd 16.5 o ddamweiniau i bob 1,000 o aelodau staff[3]. Roedd hyn yn ostyngiad o'r 22.4 damwain y 1000 a gofnodwyd yn 2015/16. Y Gyfradd Genedlaethol 16/17 oedd 25 / 1000.

Damweiniau a achosodd anafiadau cenedlaethol a Phrifysgol Bangor yn ôl cyfartaledd o 1000 o aelodau **STAFF** (2008 – 2016/17)



Yn 2016/17 cafwyd **24** o ddamweiniau a achosodd anaf i fyfyrwyr o ganlyniad i'w hastudiaethau yn y brifysgol. Yn dangos cymhareb o **2.4** damwain fesul 1,000 o fyfyrwyr,[4] yr un fath ag yr oedd yn 2015/16. Y Gyfradd Genedlaethol 16/17 oedd 2.7 / 1000.

Damweiniau a achosodd anafiadau cenedlaethol a Phrifysgol Bangor yn ôl cyfartaledd o 1000 [5] **MYFYRWYR** (2008 – 2016/17)



08	09	10	11	12	13	14	15	15/16	16/17
1.6	1.5	2.6	1.9	1	2	1	1.7	2.4	2.4

- **ANAFIADAU MAWR**

O'r 58 damwain a achosodd anaf yn 2016/17, ni chategorïwyd UNRHYW UN fel "anafiadau mawr".

- **DAMWEINIAU ADRODDADWY (RIDDOR)**

During 2016/17, there were **2** Health and Safety Yn 2016/17 cafwyd **2** ddamwain a digwyddiadau yr oedd rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). **Roedd un yn gysylltiedig â staff:** anaf a barodd dros 7 diwrnod pan oedd yr aelod staff yn absennol o waith 'arferol' yn dilyn toriad i'r bawd, a chafodd haint yn y briw wedyn. Achoswyd yr unig ddigwyddiad i fyfyriwr pan wnaeth myfyriwr a oedd yn trin cemegau, ac yn gwisgo menyg priodol at y gwaith, grafu cosfa ar ei wyneb yn reddfol, gan drosglwyddo cemegyn ar ei groen. Arweiniodd hyn at ymweliad â'r ysbyty rhag ofn ac ni achosodd unrhyw effaith hir dymor.

Nifer y digwyddiadau:

Nifer y digwyddiadau RIDDOR i staff y sector AU oedd **1.14/1000** yn 2015/16. Cyfradd Prifysgol Bangor oedd 1.2/1000 **0.5/1000** yn 2016/17, lawr o 1.7/1000 yn 15/16.

Nifer y digwyddiadau adroddadwy i fyfyrwyr yn y brifysgol oedd **0.1 /1000** yn 2016/17.

Yn hanesyddol mae cyfraddau adroddadwy y brifysgol wedi amrywio'n fawr fel y gwelir isod:

[3] Ar sail cyfrif o 2066 o aelodau staff yn ystod y flwyddyn
[4] Ar sail cyfrif o 10,188 o myfyrwyr yn ystod y flwyddyn

Blwyddyn	Staff	Myfyriwr	Ymwelydd	Cyfanswm
2016/17	1	1	0	**2**
2015/16	4	1	0	**5**
2014	7	1	0	**8**
2013	3	1	1	**5**
2012	0	2	0	**2**
2011	3	0	0	**3**
2010	3	3	1	**7**
2009	10	0	2	**12**
2008	5	1	1	**7**
2007	3	2	0	**5**
2006	3	6	0	**9**

Ni roddwyd gwybod am unrhyw afiechydon galwedigaethol neu ddigwyddiadau peryglus yn 2016/17.

- **ACHOSION DAMWEINIAU (pob damwain)**

Roedd mwyafrif y 58 damwain a arweiniodd at anaf yn ymwneud â naill ai digwyddiad trin a thrafod (27 = 47%), gael eu taro gan wrthrych yn symud/syrthio (9 = 16%) neu lithro, baglu neu syrthio (8 = 14%).

Roedd y 14 digwyddiad arall yn ymwneud â *mynd i gysylltiad â gwrthrych sefydlog(5), ymosodiad (1), mynd i gysylltiad â sylwedd (2), mynd i gysylltiad â thrydan sefydlog (1) ac eraill (5)*.



- **ADOLYGIAD O DDATA ANAFIADAU CODI A CHARIO**

Gan fod nifer yr achosion sy'n ymwneud â chodi a chario yn cyfrif am ganran mor uchel o'r holl ddamweiniau, cynhaliwyd adolygiad o ddata yn 2016/17.

Yn hanesyddol, mae anafiadau 'trin, codi neu gario' wedi bod yn gyfrifol am ganran sylweddol o anafiadau/digwyddiadau bron â bod yn ddamweiniau a gofnodwyd yn y brifysgol. Wrth gyflwyno data am ddamwain/digwyddiad 'trin a thrafod' tybir yn aml mai dim ond damweiniau/digwyddiadau a achosodd niwed i'r cefn neu anaf tebyg sydd wedi eu cynnwys.

Mae'r adolygiad o anafiadau trin a thrafod (2012-2016) wedi dangos tystiolaeth bod y mwyafrif o'r anafiadau i rannau eraill (e.e. nid y cefn) o'r corff (e.e. traed, dwylo, breichiau, coesau) a'u bod yn fân anafiadau (e.e. briwiau, cleisiau). Gwelwyd hefyd mai dim ond ychydig iawn o ddiwrnodau gwaith sy'n cael eu colli mewn gwirionedd o ganlyniad i anaf trin a thrafod.

Yn dilyn yr adolygiad, trefnodd y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch hyfforddiant i aseswyr codi a chadw (hyfforddi'r hyfforddwr) i'r colegau/adrannau hynny y credir i fod fwyaf mewn perygl. Roedd hyn er mwyn galluogi'r coleg/adran i ddarparu hyfforddiant codi a chadw wedi ei deilwra a gwerthuso risgiau codi a chario penodol i'w staff, y teimlir ei bod yn fwy buddiol na'r cwrs blaenorol a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch.

- **DAMWEINIAU A ACHOSODD I STAFF GOLLI AMSER O'R GWAITH**

Cafwyd cyfanswm o **5** digwyddiad a achosodd i staff golli amser (yn dilyn damwain yn y gwaith) yn 2016/17. Roedd yr holl ddigwyddiadau y collwyd amser o'r gwaith o'u herwydd yn rai oedd yn gysylltiedig â chodi a chario. Roedd y ddau ddigwyddiad a achosodd golli dros 8 diwrnod o waith yn ymwneud a heintiad, yn dilyn toriad difrifol, ac arweiniodd y digwyddiad arall at gymhlethdodau pellach (straen).



Graddfa'r brifysgol o amser a gollwyd yw **2.42** diwrnod i bob 1000 o staff, sydd wedi gostwng o **3.45**/1000 yn 15/16.



- **DAMWEINIAU ERAILL, DIGWYDDIADAU A DAMWEINIAU A FU BRON Â DIGWYDD**

Cafwyd adroddiadau am **154** (156) o ddigwyddiadau eraill, **na achosodd unrhyw anafiadau**, yn 2016/17. Mae'r rhain yn cynnwys: **19** Adroddiadau am salwch a oedd angen cymorth cyntaf neu ambiwlans.

Mae'r adroddiadau wedi eu rhannu fel a ganlyn:

135 Adroddiadau am ddigwyddiadau na achosodd anafiadau (heb gynnwys 19 salwch)



Yn ychwanegol, cafwyd **150** adroddiadau am ddigwyddiadau'n ymwneud â chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd), yn bennaf am anafiadau sy'n digwydd yn anochel wrth chwarae rhai chwaraeon.

- **DIGWYDDIADAU TRAMOR A THEITHIO DRAMOR**

Yn ystod 2016/17 bu 1,513 o staff/myfyrwyr ar deithiau tramor a gofnodwyd ar y gronfa ddata yswiriant ganolog. Yn ystod 2015/16 cafwyd 1,424 ohonynt.

O'r rhain, rhoddwyd gwybod am **6** achos lle bu'n rhaid i aelod staff/myfyriwr gael sylw meddygol dramor.

- Salwch: 4.
- Anaf: 2 (Ymosodiad: 1).

Roedd yr anaf 'ymosodiad' yn ymwneud â myfyriwr Erasmus a gafodd ei anafu â chyllell mewn cyngerdd yn Sbaen yn ystod ei flwyddyn dramor. Fe wnaeth y fyfyriwr wella'n llwyr a pharhau gyda'i astudiaethau blwyddyn dramor.



Sylwer: *Mae pryder yn parhau bod rhai staff yn teithio dramor ar waith y brifysgol heb drefnu i gael yswiriant teithio'r brifysgol. Mae adolygiad sampl o brynu teithiau tramor yn erbyn yswiriant teithio yn cael ei wneud ar hyn o bryd (mis Hydref 2017).*

- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â CHERBYDAU**

Yn 2016/17 ni fu unrhyw hawliadau am ddifrod i gerbydau'r brifysgol. Bu **8** hawliad yn ymwneud â difrod i gerbydau wedi eu llogi, fel a ganlyn:

- Gyrrodd aelod staff fws mini wedi ei logi am yn ôl i mewn i goeden.
- Gyrrodd aelod staff fws mini am yn ôl i mewn i goeden (yr un goeden). *O'r herwydd, gosododd y tîm tiroedd arwydd rhybudd mawr ar y goeden.*
- Gwnaeth aelod staff ddifrodi ochr bws mini wedi ei logi.
- Cafodd aelod staff oedd yn gyrru car wedi logi ei daro ar ochr y teithiwr gan LGV (lori) tra'n mynd o amgylch chylchfan ar ffordd ddeuol.
- Tarodd myfyriwr ymchwil oedd yn gyrru car wedi logi gerbyd arall ar gylchfan. Yn dilyn hyn, aethant i barcio mewn gorsaf betrol gerllaw i gyfnewid manylion gyda gyrrwr y cerbyd arall ac

wrth yrru oddi yno, aeth i'r gêr ôl trwy gamgymeriad a tharo wal isel.

- Gyrrodd aelod staff oedd yn gyrru cerbyd aml-bwrpas wedi logi y cerbyd am yn ôl i mewn i biler mewn maes parcio.

Cyfradd Digwyddiadau Cerbydau[6]					
2014 / 2015		2015/ 2016		2016/17	
Cyf. Dydd	Cyf. Milltir	Cyf. Dydd	Cyf. Milltir	Cyf. Dydd	Cyf. Milltir
2,808	260,073	2,871	207,029	1,686	175,701
Dig. / Dydd	Dig. / Milltir	Dig. / Dydd	Dig. / Milltir	Dig. / Dydd	Dig. / Milltir
1.4/ 1000 dydd	1.54/ 100k milltir	1.04/ 1000 dydd	1.4/ 100k milltir	3.6/ 1000 dydd	3.4/ 100k milltir
CYFANSWM ANAFIADAU		CYFANSWM ANAFIADAU		CYFANSWM ANAFIADAU	
0		2 (Un Digwyddiad)		0	

Cedwir data Undeb y Myfyrwyr ar wahân (gan fod yr undeb yn endid cyfreithiol ar wahân gydag yswirwyr gwahanol). Ni adroddwyd am unrhyw anafiadau mewn damweiniau ffyrdd ac ni wnaed unrhyw hawliadau yswiriant (ar gyfer cerbydau'r undeb). Teithiodd cerbydau Undeb y Myfyrwyr bellter o 39,856 milltir yn 2016/17.

- **MONITRO SAFLEOEDD CONTRACTWYR**

DANGOSIAD PERFFORMIAD	

Lleihaodd nifer yr arolygiadau iechyd a diogelwch ar safleoedd adeiladu ychydig yn 2016/17 i **129** *(146)***.** Roedd y canfyddiadau'n debyg i 2015/16 gyda Safonau Da/Dim Problemau **80%** *(81%)*, Cymedrol **16%** *(14%)* a risgiau a nodwyd **4%** *(5%)*.



Nodir y gostyngiad bychan yn nifer yr arolygiadau safle ffurfiol o 223 yn 2014 i 129 yn y 2016/17.

6. ABSENOLDEB SALWCH YMYSG STAFF

DANGOSIAD PERFFORMIAD	

Roedd nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldebau tymor byr yn parhau i fod yn sefydlog, a gostyngodd absenoldebau tymor canolig (8-20 diwrnod) ond cynyddodd absenoldebau tymor hir yn 2016/17.

Yn 2016/17, collwyd 9,106 o ddiwrnodau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch a adroddwyd. Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd absenoldeb salwch ymysg staff o **5.38** diwrnod am bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn[7] (5.02 diwrnod yn 2015/16). Y cyfartaledd yn y sector AU yn genedlaethol yn 2016/17 (y data diweddaraf sydd ar gael) oedd **5.8** diwrnod[8].



[6] Defnyddio cyfanswm digwyddiadau y dyddiau llogi a milltiredd ar gyfer un darparwr cerbydau (llogi) yn unig
[7] Seiliedig ar FTE cyfartalog dros 16/17 of 1692.62

[8] Cyfartaledd a roddwyd yn UCEA Sickness Absence in Higher Education Report 16/17; seiliedig ar 101 Sefydliaidau AU

Mae cyfradd absenoldeb salwch Prifysgol Bangor yn 2016-17 o **5.38 diwrnod** yn cyfateb i ryw **2.47%** o amser gwaith[9] yn cael ei golli oherwydd absenoldeb salwch.

Canran y gyfradd absenoldeb oedd **1.92% yn 2015/16, 1.9% yn 2014, 1.7% yn 2013** ac **1.8% yn 2012**.

Yn 2016/17 cadarnhawyd 80% (7,250 diwrnod gwaith, wedi ei addasu ar gyfer FTE) o holl absenoldebau salwch gan dystysgrif feddygol, gyda'r gweddill 20% (1,856 diwrnod, wedi ei addasu ar gyfer FTE) yn rhai hunan-ardystiedig.

Roedd absenoldebau tymor hir, mwy nag 20 diwrnod, yn gyfrifol am 66% (5,974 diwrnod o absenoldeb, wedi ei addasu ar gyfer FTE) o'r holl ddiwrnodau o absenoldeb a adroddwyd yn 2016/17, ac yn dangos cynnydd o 6.5% ar y cyfanswm yn 2015/16.

Mae'r tabl canlynol yn rhannu cyfanswm y 9,106 diwrnod gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn absenoldebau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Cyfanswm y staff a adroddodd am absenoldeb salwch yn 2016/17 oedd **636**, mae hyn yn cyfateb i ryw **30.8%** o aelodau staff; yn 2015/16 y gyfradd oedd 28.9%.

Hyd yr absenoldeb (fesul categori)			
	BYR 1-7 dyddiau	**CANOLIG** 8-20 dyddiau	**HIR** 21 + dyddiau
Dyddiau a gollwyd	1892 dyddiau	1240 dyddiau	5974 dyddiau
Fel % cyfanswm	20.78%	13.62%	65.60%
Achosion	1027	135	102
Nifer staff [10]	776	132	98

- **TUEDDIADAU ABSENOLDEB SALWCH**

CATEGORI	15/16	16/17	NEWID
Nifer FTE (cyfartal. y flwyddyn)	1790.22	1692.62	-97.6 (-5.5%)
Cyfanswm dyddiadau gwaith a gollwyd	8984.31	9106.84	+122.53 diwrnod
Cyfanswn dyddiau tymor hir a gollwyd (20+)	5561.14	5974.80	+413.66 diwrnod
Achosion tymor hir	110	102	-8
Dyddiadau tymor canolig/byr (<20) a gollwyd	3423.16	3132.04	-291.12 diwrnod
Tymor hir fel % o gyfanswm dyddiadau	61.90%	65.60%	+3.7%
TC/TB fel % o gyfanswm dyddiadau	38.10%	34.40%	-3.7%
Dyddiadau tymor hir yn FTE	3.11	3.53	+0.42
Dyddiadau TC/TB yr FTE	1.91	1.85	-0.06

Mae'r tablau canlynol yn dangos dyddiau cyfartalog oherwydd salwch fesul FTE yn ôl cymharydd absenoldeb i gyfraddau'r sector AU dros y 3 blynedd ddiwethaf yn ôl grŵp staff a grŵp oedran.

Grŵp Staff/ Blwyddyn	Pob aelod staff	Academaidd	Proffesiynol a Thechnegol	Clercyddol	Gweithiwr Llaw
2016/17 HE	5.8	2.8	6.2	8.8	15.5
2016/17 BU	5.4	2.2	5.3	8.4	10.9
2015/16 HE	6.0	2.9	6.4	8.3	16.5
2015/16 BU	5.0	2.0	6.8	7.9	6.6
2014/15 HE	5.7	2.7	6.1	8.4	17.5
2014/15 BU	5.1	2.2	5.4	8.0	10.4
2013/14 HE	5.5	2.6	6.3	7.9	11.1
2013/14 BU	4.6	2.8	3.5	7.7	8.2

[9] Seiliedig ar gyfartaledd o 260.715 diwrnod gwaith y flwyddynr

[10] Mae rhai aelodau staff yn ymddangos mewn mwy nag un o'r categoriau hyn, gan fod rhai wedi cael cyfnodau byr a chanolig, neu fyr a hir o'r gwaith ar adegau gwahanol

Grŵp Oedran / Blwyddyn	<25	25-34	35-44	45-54	55-65	65+
2016/17 HE	4.4	3.9	4.8	6.8	9.3	9.7
2016/17 BU	2.0	2.3	4.5	5.8	9.5	8.8
2015/16 HE	4.6	3.7	4.8	6.8	9.1	10.3
2015/16 BU	0.7	3.1	3.7	6.6	7.6	7.9
2014/15 HE	4.3	3.5	4.7	6.3	8.9	10.3
2014/15 BU	1.2	4.1	3.6	5.3	8.8	8.0

- **CYFNODAU O ABSENOLDEB TYMOR HIR**

Gan fod cyfnod o absenoldeb yn gallu dechrau ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd, mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm cyfnod absenoldeb yr holl achosion o salwch tymor hir a ddaeth i ben yn 2016/17, o'i gymharu â 2015/16 a 2014.

Gellir gweld bod oddeutu 52% o'r holl achosion tymor hir yn dod i ben o fewn cyfnod o 2 fis.

Absenoldebau dros 20 dydd a ddaeth i ben yn 2016/17 (cymharydd 15/16 a 2014)			
Cyfnod absenoldeb mewn misoedd	Nifer yr achosion 2016/17	Nifer yr achosion 2015/16	Nifer yr achosion 2014
≤2	47	47	51
≤3	16	19	23
≤4	7	12	4
≤5	7	6	5
≤6	6	3	4
≤7	1	0	5
≤8	2	0	3
≤9	1	2	0
≤10	1	0	0
≤11	1	1	1
≤12	0	0	0

- **ACHOSION ABSENOLDEB SALWCH**

Gan ddefnyddio data gyda thystysgrif feddygol yn unig: nodir unwaith eto bod salwch seicolegol ac achosion absenoldeb cyhyrysgerbydol (yn cynnwys poenau cefn, cymalau a thorri esgyrn) yn gyfrifol am y ganran fwyaf o absenoldebau yn y brifysgol a ardystiwyd gan feddyg.

Dyma ddosbarthiad y dyddiau a gollwyd ar gyfer y prif gategorïau:



Nid oes unrhyw gymhariaeth genedlaethol ar gyfer y grwpiau uchod o achosion gan eu bod yn cyfeirio at absenoldebau a ardystiwyd gan feddyg yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys achosion am absenoldeb hunan-ddatgan (hunan-ardystiedig).



Caiff achosion absenoldeb hir dymor eu crynhoi fel a ganlyn:



7. IECHYD GALWEDIGAETHOL

• GORUCHWYLIO IECHYD

Mae dros 130 aelod staff yn cael arolwg iechyd i gadarnhau nad yw eu gwaith yn niweidio eu hiechyd.

Rhoddir yr arolwg hwn i weithwyr llaw sy'n defnyddio offer dirgrynu ac yn agored i lefelau sŵn dwysedd uchel, ac i rai gwyddonwyr ymchwil, cemegwyr a staff technegol, gweithwyr ar shifftiau, gyrwyr ar gontract ac arbenigwyr trin anifeiliaid.

Mae'r arolwg iechyd wedi ei deilwra i risgiau a pheryglon galwedigaethol (gwaith) hysbys i staff, a byddant yn nodweddiadol yn cynnwys arolygiaeth resbiradol, sŵn neu ddirgrynu ac/neu asesiadau croen a phrofion llygaid.

Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau a oedd yn cael effaith niweidiol ar iechyd yn 2016/17.

• RHEOLWYR YN CYFEIRIO STAFF AT IECHYD GALWEDIGAETHOL

Yn 2016/17 cafwyd 52 o aelodau staff eu cyfeirio gan eu rheolwyr at yr Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol, oherwydd absenoldeb salwch. Yn 2015/16 cafodd 64 o aelodau staff eu cyfeirio at iechyd galwedigaethol.

8. LARYMAU TÂN YN CANU

DANGOSIAD PERFFORMIAD	

Mae ystâd y brifysgol yn cynnwys dros gant o adeiladau ar draws nifer o safleoedd. Mae mwyafrif yr adeiladau wedi eu diogelu gan systemau canfod tân a larwm tân awtomatig, sydd ag oddeutu **7910** o ganfodyddion gwres/mwg a rhai cannoedd o bwyntiau seinio larwm.

Yn 2016/17 cafwyd **121** achos o larymau tân yn seinio yn adeiladau'r brifysgol, gostyngiad bychan ar y 127 yn 2015/16.

Cyfanswm Achosion Larymau Tân yn Canu ym Mhrifysgol Bangor



Daeth y Gwasanaeth Tân ac Achub allan **34** o weithiau. Er bod hyn yn gynnydd ar y 23 yn 15/16, mae'n dal i fod yn ostyngiad sylweddol ar y 116 achlysur yn 2014 ac mae'r gostyngiad hwnnw o ganlyniad i'r ymchwiliadau mewnol i larymau tân yn canu (ac eithrio'r neuaddau o 8yn – 8yb) a gyflawnir gan staff diogelwch y brifysgol sydd wedi cael eu hyfforddi i wneud y gwaith hwnnw.

O'r nifer hwnnw, daeth y Gwasanaeth Tân ac Achub allan i'r neuaddau preswyl **29** o weithiau.

Gellir rhannu'r cyfanswm hwn (121) i ddynodi'r nifer o weithiau y canodd y larymau yn yr adeiladau preswyl a'r adeiladau academaidd/gweinyddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o ystâd y brifysgol.



Cododd nifer yr achosion o ganu larymau tân yn yr adeiladau academaidd a gweinyddol i **56** o 44 (2015/16). Bu gostyngiad yn nifer yr achosion o ganu larymau tân yn y neuaddau preswyl o 83 (15/16) i **65**.

Cyfradd achosion o ganu Larymau Tân/1000 o Ganfodyddion

Ystâd	16/17	Trend
Neuaddau Preswyl [11]	13.7/1000	I lawr
Academaidd a Gweinyddol [12]	17.6/1000	I fyny

Larymau tân yn canu fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely [13]



08	09	10	10/11	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17
75	46	38	35	32.1	30.4	34.7	33.4	25.1	21.9

Sylwer: *Nid yw cymariaethau cenedlaethol/sector wedi bod ar gael ers 2012. Yn ddiweddar nododd yr Universities Safety and Health Association (USHA) y bydd yn awr yn coladu data sefydliadol a chynhyrchu adroddiad meincnod o 16/17.*

- **TANAU**

Cafwyd **un** tân (fel y diffinnir hynny) yn 2016/17. Roedd hwn yn ddigwyddiad a ystyrid fel ymgais fwriadol i ddechrau tân mewn cegin yn un o'r neuaddau preswyl.

Yn ogystal, dechreuodd tân bychan oherwydd barbeciws, a oedd yn dal yn boeth, yn cael eu rhoi mewn bin allanol ar Safle Ffriddoedd gan achosi i'r sbwriel arall yn y bin fynd ar dân. Defnyddiodd staff diogelwch ddiffoddwr dŵr i ddiffodd y fflamau.

Cafwyd hefyd nifer o ddigwyddiadau a allai fod wedi achosi tân. Digwyddiadau a allai achosi tân yw digwyddiad lle 'ceir mwg, heb dân, a allai neu na allai achosi difrod'. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn ddigwyddiadau'n ymwneud â choginio neu stêm o gawodydd yn y neuaddau preswyl.

9. ACHOSION SIFIL I HAWLIO IAWNDAL (MEWN PERTHYNAS AG IECHYD A DIOGELWCH)

Yn 2016/17 cafwyd **un** hawliad sifil newydd am anaf personol. Roedd hwn yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd a digwyddiad llithro/syrthio.

10. YSTADEGAU'R WEFAN

Yn 2016/17 edrychwyd ar **26,249** o dudalennau unigol ar wefan Iechyd a Diogelwch, ac edrychwyd ar 41,048 o dudalennau i gyd. **(+22%** ar 2015/16).

11. HYBU IECHYD

Trwy ddigwyddiadau a mentrau wedi eu haddasu a'u targedu'n arbennig mae'r brifysgol yn ceisio hybu a chefnogi iechyd a lles y staff a myfyrwyr. Yn 2016/17 cafwyd ymgyrchoedd posteri ar ddrysau toiledau unwaith eto, oedd yn tynnu sylw at faterion fel canser y ceilliau a chanser ofaraidd, dadhydradiad ac iechyd genitowrinol.

[11] Yn seiliedig ar 4736 synwyryddion yn Neuaddau
[12] Yn seiliedig ar 3174 synwyryddion yn Adeiladau Academiadd
[13] Wedi'i seilio ar 2960 o ystafelloedd gwely/astudio

12. CEFNOGI'R GYMUNED EHANGACH

Ers llawer o flynyddoedd mae'r brifysgol wedi cefnogi'r elusen Tŷ Gobaith/Hope House sy'n darparu seibiant, gofal lliniarol a nyrsio terfynol i blant y mae hyd eu bywyd yn debygol o fod yn fyr.

Unwaith eto bu staff a myfyrwyr yn ymwneud â nifer o weithgareddau i godi arian y llynedd, yn amrywio o'r rhoddion misol drwy loteri'r staff, rhoddion yn lle rhoi cardiau Nadolig, marchnad Nadolig y myfyrwyr a rhoddion eraill. Mae pawb sy'n cymryd rhan yn y loteri staff yn cyfrannu £1 y mis ac mae 26% o staff yn cyfrannu'n rheolaidd. Casglwyd dros £3,000 yn 2016/17 trwy'r loteri staff yn unig.

Diwedd.